



ffeithiau

Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Prosiect Rhandiroedd

Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit



Prosiect Rhandiroedd - Canllawiau tyfu gyda'ch gilydd ar randiroedd

Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

- Grwpiau gwirfoddol a chymunedol e.e. grwpiau tyfu bwyd sydd wedi deillio o'r symudiad Trefi Trawsnewid sy'n bwriadu rhentu llain/lleiniau ar safle rhandiroedd.
- Staff asiantaethau gwirfoddol sy'n cydlynu rhentu lleiniau er mwyn rhedeg prosiectau tyfu addysgol neu therapiwtig e.e. MIND, grwpiau cefnogi ffoaduriaid.
- Cymdeithasau rhandiroedd a deiliaid lleiniau fyddai'n hoffi cydweithio i greu prosiect er mwyn i'w safle elwa.

Beth yw rhandir?

Darn o dir a brydelsir gan landlord preifat neu awdurdod lleol yw rhandir, er mwyn tyfu ffrwythau a llysiau ar gyfer defnydd personol a defnydd y teulu. Maint safonol lleiniau ar hyn o bryd yw 250 metr sgwâr, a gall safle rhandiroedd gynnwys cyn lleied â 6 neu gannoedd o leiniau, er i faint lleiniau leihau wrth i'r galw amdanynt gynyddu.

Yn draddodiadol, mae unigolion wedi trin rhandiroedd, gyda rhywfaint o fewnbwn gan ffrindiau neu aelodau'r teulu, ond fel mae canllawiau'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol 'Space for Food Growing' (sydd ar gael yma: www.gov.uk/government/publications/space-for-food-growing-a-guide) yn cydnabod, mae defnyddwyr newydd wedi ymddangos - yn amrywio o gydweithfeydd tyfu bwyd i gynlluniau therapiwtig ac addysgol. Maent yn cynnwys canolfannau dydd ar gyfer

pobl gydag anghenion arbennig, prosiectau i ffoaduriaid, cynlluniau hyfforddi mewn colegau a grwpiau ieuentid.

Mae'r defnyddwyr hyn yn cynnig gweithgareddau ac adnoddau tu hwnt i gwmpas rhandiroedd confensiynol, ac weithiau maen nhw hefyd yn chwarae rhan wrth adfywio safleoedd, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad yw llawer o bobl yn cymryd rhandiroedd. Gall prosiectau cymunedol ddenu cyllid grant er mwyn darparu cyfleusterau sy'n hygyrch i'r holl ddeiliaid rhandiroedd.

Mae rhai awdurdodau lleol yn annog cymunedau i ddefnyddio rhandiroedd. Mae'r awdurdodau hyn yn ystyried fod hyn yn arwain at ehangu garddio ar randiroedd i fwy o bobl a gall helpu gwireddu rhai o amcanion eraill yr awdurdod o ran cefnogi iechyd a llesiant cymunedau.

Mae diwylliant a rheolau penodol ynghlwm wrth safleoedd rhandiroedd, sy'n cyfyngu'r gweithgareddau y gellir eu gwneud ar y safle (rhai ohonynt yn cael eu diogelu gan Ddeddfwriaeth Rhandiroedd). Er mwyn i grŵp weithio'n llwyddiannus ar safle, mae'n bwysig ystyried y pethau hyn.

Sut i gael hyd i randir ar gyfer eich grŵp

Sut mae safleoedd rhandiroedd yn cael eu trefnu

Mae'r rhan fwyaf (ond nid pob un o bell ffordd) o safleoedd rhandiroedd yn eiddo i awdurdod lleol (y cyngor rhanbarth, bwrdeistref, tref neu'r cyngor plwyf). Swyddog rhandiroedd neu'r swyddog parciau fydd yr unigolyn cyswllt yn yr awdurdod (neu'r clerc neu gynorthwydd technegol ar gyfer cynghorau llai).

Bydd gan lawer o safleoedd rhandiroedd (gan gynnwys y rhai sy'n eiddo i awdurdod lleol) gymdeithas sy'n cael ei rhedeg gan bwyllgor a/ neu gynrychiolydd y safle. Mae'r

manyion cyswllt ar gael trwy'r awdurdod lleol, hysbysfwrdd ar y safle neu drwy ofyn i un o ddeiliaid lleiniau y safle. Hwyrach y caiff safle ei reoli gan yr awdurdod lleol neu'r gymdeithas yn unig neu gyfuniad o'r ddau.

Mae tri math o safleoedd rhandiroedd:

Rhandiroedd statudol

Sef parseli tir y mae'r awdurdod lleol wedi eu caffael i'w defnyddio fel rhandiroedd yn benodol.

Nid yw'n bosib gwerthu neu ddefnyddio'r safleoedd statudol hyn at unrhyw ddiben arall heb ganiatâd Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae'r wybodaeth mewn perthynas â'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau rhandiroedd ei dangos i brofi nad oes angen safle rhandiroedd bellach ac y gellir cael gwared arno, ar gael yma: www.gov.uk/government/publications/allotment-disposal-guidance-safeguards-and-alternatives

Rhandiroedd dros dro

Mae rhandiroedd dros dro ar dir a bennwyd at ddefnydd arall, ond sy'n cael ei brydlesu neu ei rentu gan awdurdod rhandiroedd.

Nid yw'n bosib diogelu rhandiroedd dros dro rhag eu gwaredu yn yr un ffordd â rhandiroedd statudol. Ar gyfer rhandiroedd dros dro, mae gweithdrefnau cynllunio arferol yn berthnasol os bydd awdurdod y rhandiroedd am newid defnydd o'r tir.

Rhandiroedd preifat

Gellir gosod tir sy'n eiddo i berchennog preifat i'w ddefnyddio fel rhandiroedd hefyd. Mae gan y rhandiroedd preifat hyn yr un statws cyfreithiol â rhandiroedd dros dro. Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw reolaeth drostynt, ond mae gweithdrefnau cynllunio arferol yn berthnasol os bydd y perchennog am newid defnydd o'r tir.

Lleiniau ar safle rhandiroedd statudol

Mae rhandiroedd statudol yn cael eu gosod dan gytundeb tenantiaeth i unigolion sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol er mwyn tyfu ffrwythau a llysiau at eu defnydd eu hunain a defnydd eu teulu.

Fodd bynnag, mae adran 27(5) Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 ('Y Ddeddf') yn pennu y gall unrhyw un gael defnydd dros dro o dir rhandiroedd statudol os nad yw'n gallu cael ei osod fel rhandir dan adran s23(1) y Ddeddf.

Erbyn heddiw mae galw mawr am rhandiroedd mewn llawer o ardaloedd, gyda rhestrau aros hir. Yn yr achosion hyn, mae'n annhebyg y cewch eich grŵp gynnig o lain. Yn yr amgylchiadau hyn, os caniateir i grwpiau ddefnyddio llain, gall hyn danseilio gwarchodaeth statudol y safle, a'i adael yn agored i'w ddatblygu ar gyfer defnydd arall.

Os bydd lleiniau ar safle ar gael at ddefnydd dros dro, er enghraifft wedi eu hesgeuluso, neu leiniau anodd eu gosod fyddai'n gorlethu unigolyn, hwyrach y bydd awdurdod y rhandiroedd yn fodlon gosod un (neu fwy) i'ch grŵp. Yn yr amgylchiadau hyn, mae opsiynau amrywiol ar gael o safbwynt y cytundeb cyfreithiol y gellir ei gytuno (gweler isod).

Lleiniau ar safleoedd dros dro neu breifat

Nid yw'r un cyfyngiadau o ran defnydd yn berthnasol i safleoedd dros dro a phreifat, â rhandiroedd statudol. Mae gan reolwr y safle ryddid i ddyrannu lleiniau i unigolion neu grwpiau.

Y cytundeb tenantiaeth

Y cytundeb tenantiaeth traddodiadol ar gyfer rhandir yw'r 'contract' sy'n cael ei sefydlu rhwng tenant y llain ac awdurdod y rhandiroedd. Fel arfer, mae lleiniau'n cael eu prydlesu am gyfnod o flwyddyn.

O safbwynt cyfreithiol, gellir llunio'r cytundeb tenantiaeth gydag unigolyn yn unig, fel arfer arweinydd y prosiect, fydd yn gyfrifol yn gyfreithiol am aelodau'r grŵp ac ymwelwyr.

Os cynigir cytundeb tenantiaeth traddodiadol ar gyfer rhandir i'r grŵp ar y telerau hyn, dylech osgoi strwythur prosiect sy'n ymddangos fel is-osod, e.e. grŵp anffurfiol sy'n rhoi lleiniau bach i unigolion ac yn codi ffi arnynt.

Mae'r cytundeb tenantiaeth ac unrhyw reolau cysylltiedig yn cyfyngu'r gweithgareddau y gellir eu cyflawni ar rhandir. Yr awdurdod lleol neu, os bydd y safle'n hunan-reoli, y pwyllgor, fydd yn llunio'r cytundeb tenantiaeth a'r rheolau, ac maent yn amrywio o safle i safle.

Gellir troi deiliaid rhandiroedd allan os maent yn torri amodau'r cytundeb tenantiaeth.

Mae llawer o gytundebau/rheolau yn gwahardd:

- Plannu coed neu blanhigion lluosflwydd
- Creu pyllau neu godi siediau
- Gwerthu cynnyrch
- Da byw.

Hefyd bydd rheolau yn ymwneud â chadw'r llain yn rhydd rhag chwyn a pha ganran ohono y mae'n rhaid ei drin.

Mae'n bwysig fod arweinydd y grŵp yn cyfleu'r telerau ac amodau sy'n cyd-fynd â'r cytundeb tenantiaeth i holl aelodau'r grŵp, a bod unrhyw gynlluniau prosiect yn glynu wrth y rheolau hyn.

Hwyrach y bydd mathau eraill o gytundeb yn fwy priodol i'ch grŵp chi. Mae gan y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS) fwy o wybodaeth am yr opsiynau amrywiol. Gweler Adnoddau.

Sut i wneud iddo lwyddo

- Gofalwch eich bod yn hysbysu aelodau'r grŵp am arferion da ar rhandiroedd e.e. peidio golchi

offer yn y gasgen ddŵr. Gofalwch eu bod yn ymwybodol o reolau'r safle.

- Siaradwch â deiliaid rhandiroedd eraill a chyflwyno'ch hunain a dwedwch wrthynt am eich prosiect, ond cofiwch barchu lleiniau pobl eraill. Gall eich grŵp elwa o ddoethineb cyffredinol deiliaid rhandiroedd eraill sydd wedi bod yn garddio ar y safle ers amser, a bydd ganddynt gyngor i'w rannu.
- Gallwch hysbysebu manylion cyswllt eich prosiect ar y llain er mwyn i ddeiliaid rhandiroedd eraill wybod gyda phwy ddylen nhw gysylltu os bydd problem yn codi.
- Dylech enwebu deilia(i)d yr allwedd a pheidiwch â chaniatáu i aelodau'r grŵp gopïo allwedd. Gofalwch fod cynrychiolydd y safle a deiliaid rhandiroedd eraill yn ymwybodol o ddeilia(i)d enwebedig yr allwedd.
- Dylai aelodau eraill y grŵp neu bobl sy'n ymweld â'r prosiect fod yng nghwmni deiliad enwebedig yr allwedd.
- Dylech annog holl aelodau'r grŵp i ymuno â chymdeithas y rhandir os oes un, ac i gyfrannu at gymuned y rhandir ac at unrhyw weithgareddau cymunedol.
- Peidiwch â chymryd mwy o leiniau nag y mae'r grŵp yn gallu ymdopi â nhw yn realistig neu byddwch yn colli hygrededd yn gyflym. Gall lleiniau sy'n cael eu hesgeuluso ac sy'n llawn chwyn arwain at ddiect gan ddeiliaid sy'n cadw eu lleiniau'n daclus. Gall llain maint llawn fod yn dipyn o ymrwymiad hyd yn oed i nifer o bobl. Gallwch rentu mwy o leiniau ar ôl ichi sefydlu'r cyntaf.
- Dylech wneud unrhyw waith adeiladu'n raddol os yn bosib. Mae llawer o ddeiliaid lleiniau yn mynd i'r rhandir i gael heddwch, felly ni fyddan nhw'n croesawu sŵn, llygredd a gweithgareddau

sy'n amharu ar hynny.

- Peidiwch â gadael offer a chyfarpar drud o gwmpas y lle; gall arwain at ddenu lladron a fandaliaeth. Dylech eu cloi mewn sied, neu dewch â nhw gyda chi bob tro wrth fynd i'r rhandir.

Pethau ymarferol i'w hystyried cyn cychwyn

- Bydd angen yswiriant arnoch. Ar safleoedd sy'n cael eu gosod yn uniongyrchol, mae'r awdurdod ond yn yswirio manau cyffredin, a bydd angen polisi atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer eich llain. Os oes gan y safle gymdeithas, dylen nhw gael yswiriant, a bydd angen ichi wirio ei fod yn cynnwys y gweithgareddau sydd gennych mewn golwg.
- A fydd angen toiled? Os nad oes toiled ar neu'n agos at y safle, bydd angen caniatâd i hurio toiled cemegol neu gallwch ystyried adeiladu toiled compost.
- A fydd angen darparu cludiant ar gyfer eich grŵp? Oes digon o le i barcio ac a oes mynediad at y llain ar y safle?
- Ydych chi wedi caniatáu ar gyfer amser bwyd ac wedi darparu cyfleusterau i gael diod? Hwyrach nad oes unrhyw ddŵr yfed ar y safle.
- Os nad oes unrhyw le i gysgodi yn ystod tywydd drwg neu i gadw'ch offer, bydd angen caniatâd i godi sied, twnnel plastig neu flwch llongau.
- Gofalwch fod cyfranogwyr yn dod i'r safle mewn dillad ac esgidiau awyr agored addas. Hwyrach y bydd angen ichi ddarparu welingtons.
- Os bydd ychydig o ddyddiau rhwng ymweliadau'r grwp â'r llain, bydd angen ystyried pwy fydd yn rhoi dŵr i'r planhigion yn ystod cyfnodau sych, ac i wirio bod popeth yn ddiogel.

- Sut byddwch yn denu pobl newydd i'r grwp os bydd rhai'n gadael?

Am fwy o syniadau gweler Cyngor gan brosiectau eraill ar y tudalennau sy'n dilyn.

Arbenigedd garddio

Mae cyngor garddio manwl tu allan i gwmpas y daflen ffeithiau hon, ond wrth gwrs mae arbenigedd ym maes garddio yn rhan bwysig o'ch prosiect! Gweler isod ychydig o gyngor ac adnoddau i'ch helpu cael hyd i'r wybodaeth fydd ei hangen arnoch.

- Yn aml, mae chwyn parhaol cyson yn fwy o broblem ar randir nag mewn gardd gyffredin. Un strategaeth dda yw rhoi haen o ddeunydd sy'n atal chwyn rhag tyfu dros fwyafryf y llain, a'i droi yn ôl un darn ar y tro pan fyddwch yn barod i'w drin.
- Trwy ymaelodi â Garden Organic gallwch dderbyn ystod o daflenni ffeithiau defnyddiol, mae ganddynt daflen ar 'Organic Allotment Growing', ac maent yn cynnal ymweliadau i erddi organig enghreifftiol ac yn rhoi cyflwyniadau ar randiroedd.
- Gallwch ystyried tanysgrifio i'r cylchgrawn misol Kitchen Garden sy'n rhoi cyngor fesul mis ar dyfu bwyd sy'n berthnasol i randiroedd. Hefyd mae llw o gyngor tyfu ar wefan Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol.
- Gallwch gasglu llyfrau garddio megis 'The New Vegetable and Herb Expert', 'Successful Allotments' a 'The Organic Bible' (gweler Adnoddau).
- Gallwch fynd ar gwrs garddio yn eich coleg lleol neu gallwch drefnu cyrsiau hyfforddi mewn garddio ar eich rhandir.

Cofiwch lunio cynllun ymadael

Hwyrach y daw'r prosiect gorau oll i ben yn y pen draw os daw'r cyllid i ben neu os bodlonwyd yr angen

gwreiddiol ar gyfer y prosiect. Ar ddechrau'r prosiect, dylech gytuno gyda swyddog y rhandir neu'r Gymdeithas beth fydd yn digwydd os/pan ddaw'r prosiect i ben. Mae'n bwysig er budd deiliaid rhandiroedd eraill ac enw da prosiectau rhandiroedd y dyfodol, eich bod yn dirwyn y prosiect i ben yn iawn:

- Rhoi'r gorau i'ch tenantiaeth cyn i'r llain ordyfu. Mae hyn yn golygu y bydd yn hawdd ail-osod y llain.
- Cofiwch roi'r holl allweddi yn ôl. Mae prynu allweddi newydd yn gost fawr i awdurdodau ac yn risg o safbwynt diogelwch. Os ydych wedi plannu planhigion lluosflwydd megis rhiwbob a mafon, dylech gytuno ar yr hyn y gellir ei adael yno a'r hyn sy'n gorfod cael ei glirio.
- Bydd angen cael gwared ar unrhyw ddeunyddiau megis pren, sbwriel a bagiau compost.

Gair o gyngor gan brosiectau eraill

Dylunio'r llain ac offer

Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Rotherham

- Prynwyd sied fetel rad i gadw pethau, ond nid oedd yn ddigon cadarn. Llwyddwyd i gael grant a chaniatâd cynllunio ar gyfer blwch llongau ail-law oedd yn ddiogel iawn.
- Dau dwnnel plastig - delfrydol i weithio dan do mewn tywydd drwg ac i dyfu amrediad ehangach o blanhigion. Byrddau ar gyfer gwaith plannu hadau. Mae angen mwy o wirfoddolwyr ar gyfer hyn oherwydd y gwaith dyfrhau. Nid oedd digon o awyru ar gyfer tomatos (ffwng) felly penderfynwyd prynu tŷ gwyrdd hefyd.
- Rhoddwyd y biniau compost inni.
- Mae contractwr lleol yn dod â dail a gwastraff gwyrdd.

Gardd Easton, Bryste

- Doedd dim ardal i luosogi hadau, felly crëwyd gwely cynnes yn lle.
- Am fanylion ar sut i greu gwely cynnes, gweler: <https://www.growveg.co.uk/guides/how-to-make-a-hotbed-for-the-earliest-sowings/>
- Wedi adeiladu cysgodfa 'plethwaith a chlai' addas i bob tywydd gyda chymorth yr ysgol leol. Defnyddiwyd y gysgodfa hefyd ar gyfer gweithdai gwaith coed gwyrdd.
- Adeiladwyd toiled compost am £50 trwy ddefnyddio deunyddiau a adferwyd a gweithwyr gwirfoddol.
- Dim dŵr ar y safle, ac yn rhy ddrud ei osod. Sefydlwyd system casglu dŵr glaw trwy ddefnyddio casgenni plastig a ailgylchwyd a dŵr ffo to garej gerllaw.

Groundwork East Durham

- Achoswyd difrod difrifol i'r twneli plastig oherwydd gwynt, ac roedd yn anodd eu trwsio. Ddim yn addas ar gyfer safleoedd sy'n agored i wynt o'r gogledd ddwyrain.
- Trwy osod tŷ gwydr, denwyd llawer o wirfoddolwyr newydd, oherwydd roedd ganddynt le cynnes dan do i weithio.
- Roedd peiriant palu a strimiwr yn wastraff amser. Swnllyd a thrwm. Ddim mor addas i brosiectau i fenywod mewn oed, plant neu bobl gyda phroblemau symudedd.
- Nid oedd y gwelyau uchel wedi denu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ond roeddynt yn boblogaidd gyda grwpiau ysgol – teimlad o berchnogaeth, haws eu gweithio, mwy rheoladwy o ran maint, felly'n llai brawychus.
- Cynllun y llain yn cynnwys ardal ar gyfer tân gwersyll i gael paned, sydd yn boblogaidd iawn.

TCV Swydd Northampton

- Ystod o welyau uchel deniadol yn amrywio o ran uchder yn eu gwneud yn addas i ddefnyddwyr amrywiol.

Ymddiriedolaeth Natur Sir Gaerhirfryn

- Peidiwch â phrynu gormod o offer i gychwyn, oherwydd ni fyddwch yn gwybod beth sydd ei angen arnoch nes ichi fwrw ati. Gallwch brynu neu fenthyg offer sylfaenol i gychwyn, ac wedyn ehangu pan fydd angen eitemau eraill arnoch.

Dal ati

Teeside Homeless Action

- Yn ystod yr haf, roedd dyfrhau yn broblem fawr. Trwy weithio'n galed i ddenu ac annog gwirfoddolwyr, llwyddwyd i ddatrys y broblem.
- Wedi darganfod fod darparu ystod eang o weithgareddau wedi helpu cynnal diddordeb gwirfoddolwyr.
- Trwy ddarparu ardaloedd garddio a thyfu bwyd, roedd pobl yn gallu dysgu am welyau blodau a garddio amwynder yn ogystal â thyfu llysiau, ffrwythau a chompostio.
- Roedd hyfforddiant mewn sgiliau garddwriaethol a chrefftau'n boblogaidd e.e. ffensio â chlwydi.

Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Rotherham

- Roedd gennym rhai 'garddwyr tywydd teg' – a dim golwg ohonynt yn ystod y gaeaf.
- Darganfod fod digwyddiadau cymdeithasol yn denu pobl newydd - barbeciw, diwrnod hwyl, ceidwaid parc yn rhedeg gweithdai gwneud blychau ar gyfer ystumod ac adar, castell gwynt, plannu hadau, digwyddiadau diwrnod afalau.
- Wedi ystyried y posibilrwydd o sefydlu cyrsiau hyfforddi achrededig ar y safle.

TCV Swydd Northampton

- Wedi cynnwys nifer o grwpiau ysgol ond roedd yn anodd cael plant i ddod tu allan i sesiynau ysgol. Roedd trosiant athrawon yn broblem – rhai'n awyddus i ddod â'r plant, eraill yn rhy nerfus.
- Daeth rhai gwirfoddolwyr fel rhan o gynllun profiad gwaith trwy'r parc lleol.
- Roedd deiliaid rhandiroedd eraill yn werthfawr iawn o safbwynt cyfnewid gwybodaeth.

Gardd Easton, Bryste

- Defnyddiwyd y safle ar gyfer gweithdai mewn sgiliau ymarferol megis creu gwely cynnes neu bwll. Cyfranogwyr wedi dysgu sgiliau newydd ac yn awyddus i ddod nôl i weld eu gwaith yn datblygu.
- Ar y dechrau, roedd yn cynnwys nifer o grwpiau gwahanol oedd yn golygu dipyn o waith, oherwydd roedd yn rhy anodd bodloni gofynion yr holl grwpiau, felly penderfynwyd canolbwyntio ar ychydig o grwpiau'n unig.
- Trwy roi cyfrifoldeb a phwerau gwneud penderfyniadau i wirfoddolwyr, arweiniodd at berchnogaeth a chyfrifoldeb, a arweiniodd yn ei dro at ymrwymiad.

Groundwork East Durham

- Roedd yn anodd delio gyda'r gwaith dyfrhau dros yr haf, ac achosodd rhaniadau rhwng grwpiau gwahanol y prosiect, oedd yn digalonni pobl. Os nad oes gennych ddigon o bobl i ddyfrhau yn yr haf, dewiswch gnydau llai 'sychedig' yn yr haf.
- Cynigiwyd cymhelliant ar sail iechyd i gyfranogwyr e.e. pas am ddim i ganolfannau hamdden, tripiâu dydd i erddi botaneg.

Ymddiriedolaeth Natur Sir Gaerhirfryn

- Peidiwch â chynhyrfu os bydd prosiectau'n mynd ar i fyny ac i

lawr. Mae cymunedau a phobl yn newid; rhaid derbyn hynny a pheidiwch ei wthio.

- Cofiwch estyn croeso er mwyn denu pobl newydd. Peidiwch â gofyn am ymrwymiad mawr gan bobl: dylid glynu wrth ddiwrnod penodol yn ystod yr wythnos i bobl daro heibio a helpu am gwpl o oriau.
- Rhedeg y prosiect fel canolfan gymunedol awyr agored - paned a bisgedi ar gael. Mae'r elfen gymdeithasol yn bwysig.
- Ceisiwch ddarparu ar gyfer sgiliau a doniau amrywiol, ac arbenigwyr a dechreuwyr.
- Mae cnewyllyn o ryw 8-10 o bobl ymroddedig yn ddigon. Does dim angen grŵp mawr. Trwy ehangu i 20, bydd deinameg y grŵp yn gymhleth. Mae aelodau grwpiau llai'n dueddol o dderbyn mwy o gyfrifoldeb, ac mae'n haws cadw cofnod o bwy sy'n gwneud beth.

Adnoddau

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SF&G)

Ffôn: 0117 923 1800

Ebost: admin@farmgarden.org.uk

wefan: www.farmgarden.org.uk

Yn cefnogi, cynrychioli ac yn hyrwyddo ffermydd a gerddi a reolir gan y gymuned ar draws y DU.

Ymhlith cyhoeddiadau perthnasol ychwanegol mae 'Allotments law and community growing'.

Y Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol (NAS)

Ffôn: 01536 266576

Ebost: natsoc@nsalg.org.uk

wefan: www.nsalg.org.uk

Y corff cenedlaethol sy'n cynrychioli Rhandiroedd yn y DU.

Y Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol

wefan: www.farmgarden.org.uk/
clas

Sy'n cael ei reoli gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, mae'r Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol (CLAS) yn cynorthwyo prosiectau manau gwyrdd cymunedol gydag ymholiadau ym maes tir a chynllunio.

Garden Organic

Ffôn: 0247 630 3517

Ebost: enquiry@gardenorganic.org.uk

wefan: www.gardenorganic.org.uk

Taflenni ffeithiau a chyngor ar arddio organig.

Thrive

Ffôn: 0118 988 5688

Ebost: info@thrive.org.uk

wefan: www.thrive.org.uk

Yn defnyddio garddio i annog newidiadau cadarnhaol ym mywydau pobl sy'n byw gydag anableddeu neu afiechyd, neu sy'n ynysig, yn ddifreintiedig neu'n agored i niwed.

Yn rhedeg cyrsiau hyfforddi ar Arddwriaeth Gymdeithasol a Therapiwtig (STH). Yn cynnig gwybodaeth ar ddulliau garddio addasedig a dylunio gerddi hygrych i arddwyr gydag anghenion arbennig.

Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth (TCV)

Cyhoeddiadau ar bynciau amrywiol megis plannu coed a phlygu gwrych, asesiadau risg a gofalu am offer.

Ffôn: 0149 182 1600

Ebost: information@tcv.org.uk

wefan: www.btcv.org

Cyhoeddiadau defnyddiol

Kitchen Garden magazine

wefan: www.kitchengarden.co.uk

Grow Your Own Magazine

wefan: www.growfruitandveg.co.uk

The New Vegetable and Herb Expert gan Dr DG Hassayon

Llyfr da ar dyfu llysiau i ddechreuwyr.

ISBN-10: 0903505754

ISBN-13: 978-0903505758

Green Essentials Organic Guides - 'Successful allotments' gan Pauline Pears

Llyfryn lliw llawn ar gychwyn garddio rhandir.

ISBN-10: 1904601219

ISBN-13: 978-1904601210

Organic Gardening Bible by Bob Flowerdew

ISBN-10: 0857833030

ISBN-13: 978-0857833037



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms
& Gardens
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol

Ffon: 02920 225 942 / **Ebost:** wales@farmgarden.org.uk
Website: www.farmgarden.org.uk